# Camau i atal Anwedd

Mae anwedd yn digwydd pan fydd dŵr yn yr aer yn anweddu ar arwyneb oer. Rydych chi'n creu anwedd yn eich cartref bob dydd trwy anadlu, sychu dillad, coginio, ac ymolchi.

**A wyddoch chi?**

Mae teulu cyffredin yn creu **112 PEINT** o leithder yr wythnos!

## Sychu dillad

Ceisiwch sychu eich dillad tu allan. Os rhaid sychu dillad dan do, rhowch ar rac sychu mewn ystafell heulog neu wedi'i gwresogi lle gellir agor ffenestr ychydig, a chaewch y drws.

Chwiliwch am ddiferion neu ddŵr ar ffenestri, waliau, teils a thanciau dŵr toiledau.  Sychwch unrhyw ddŵr sy'n casglu yn yr ardaloedd hyn.

## Coginio

I leihau lleithedd, dylech gadw caeadau ar sosbenni wrth goginio a defnyddio ffan echdynnu. Cadwch ddrws y gegin ar gau i atal lleithedd rhag lledaenu i ystafelloedd eraill.

Dylech geisio cynnal tymheredd gwresogi o 19°C ym mhob ystafell.

## Awyru

Agorwch eich ffenestri yn aml a phob amser ar ôl cynhyrchu lleithedd e.e. rhedeg bath. Agorwch holltau awyru mewn ffenestri a gadewch eich ffenestri ar agor os yw'n ddiogel gwneud hynny.

## Eisiau rhagor o wybodaeth?

Darllenwch lyfryn lleithder a llwydni Rhentu Doeth Cymru

**rhentudoeth.llyw.cymru/cym/resource-library/**

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales